

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Fehefin, 2021 drwy 'Zoom'.
Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Aled Davies, Aled Evans, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Naomi Jones, Gareth O. Davies, Trefor Wyn Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Tegid Jones, Sion Aled Jones, Darren Morley, Ceri Jones, ac Anwen Jones.
 2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 13eg o Fai 2021 (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 05.06.2021).
 3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mai 2021 - (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 05.06.2021).
 4. **Datgan buddiant personol**, (Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod). Cynghorydd William Ifor Hughes, datgan buddiant personol o dan rhif 6a, sef cais cynllunio Tir cyfagos i 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd oherwydd ei fod yn gymydog.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

- a) Cau ffordd ddsbarth III gyferbyn a Fron Oleu Isaf, Rhoslan ar 24.05.2021 rhwng 1-3 diwrnod-gwaith ar geblau uwchben gan BT Openreach. Derbyn.
- b) A497, Llanystumdwy - newid goleuadau stryd i 'LED'. Derbyn.
- c) Llwyn Helyg, Llangybi - draeniad-am oddeutu 3 diwrnod-rhywdro mis Mehefin. Derbyn.
- ch) Cae Llo Brith, Llanystumdwy - clytwaith priffyrdd. Derbyn.
- d) Glanllynau - Tyddyn Sianel - clytwaith priffyrdd. Derbyn.
- dd) Glandwyfach - Rhoslan - clytwaith priffyrdd. Derbyn.
- e) Lon gefn, Llanystumdwy - clytwaith priffyrdd. Derbyn.

6. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) Rhif cais:C21/0406/41/RA - Tir Cyfagos i 4 Glasfryn Terrace, Pencaenewydd, Pwllheli,LL53 6RB - cais i ryddhau amodau 3 (math o lechi), 4(gorffeniad allanol), 6(cynllun draenio), 7 (man troi cerbydol,) ac 8 (trefniant parcio) o ganiatâd cynllunio C16/0360/41/LL ar gyfer tŷ fforddiadwy newydd. **Dim gwrthwynebiad.**

b) Rhif cais:C20/0348/35/LL - Tir ger Coed Mawr Woodland, Criccieth, LL52 0ND - cais i ddefnyddio tir ar gyfer gwersylla/ glampio amgen parhaol.

Gwrthod - ar sail y manylion isod:-

Y prif broblem yw fod y fynedfa i'r safle yn hynod o beryglus. Mae tua 100 llath o'r lon fawr, ac ar y tro ger Pont Rhyd y Benllig, ar lon brysur, loriau/bysiau yn teithio'n aml, a sawl damwain wedi digwydd yma.

Fe ofynwyd am safle bws yno ar un adeg, ond fe gafodd ei wrthod am yr un rhesymau.

Mae loriau weithiau yn mynd yn 'sownd' ar y bont, a llawer o goed yn tyfu yno.

Mae biniau yn cael ei cadw yn y lon lle bwriedir rhoi mynedfa i'r safle, ond mae mewn lle peryglus iawn.

Mae'r cymdogion yn hynod o bryderus am fwriad y cais, a'r trafndiaeth ychwanegol fydd yn digwydd yno os bydd yn cael ei gefnogi.

c) **Rhif Cais:C21/0497/41/DT - Tyddyn Heilyn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6SW**
-estyniad. **Cefnogi.**

7. **Asesiad risg** Cyngor Cymuned Llanystumdwy - y Clerc wedi addasu'r ffurflen asesiad risg, ac wedi ei hanfon at y cyngorwyr am sylwadau, er mwyn ei mabwysiadu a'i rhoi ar wefan y Cyngor, ac i'w ddiweddarau'n flynyddol fel bydd angen. **Derbyn.**

8. **Polisiau** - adborth yn dilyn Is-Bwyllgor Polisi a gynhaliwyd 13.05.2021, i drefnu diweddarau polisiau y Cyngor. Mae'r newidiadau wedi cael ei nodi'r fanwl ar gofnodion y pwyllgor sydd arwahan, ac mae'r Clerc wedi trefnu i'w anfon at bawb cyn y cyfarfod. Mae'r newidiadau wedi cael ei gwneud ar y polisiau i gyd, ac wedi cael ei mabwysiadu, a'i llofnodi yn dilyn y cyfarfod gan y Cadeirydd a'r Clerc ar 05.06.2021, ac mae'r Clerc am ei anfon i wefan y Cyngor. **Derbyn.**

9. **Argyfwng ail gartrefi-** cyfarfod wedi ei drefnu drwy 'zoom' 27.05.2021 gan Gyngor Tref Nefyn. **Dyma grynodeb o'r cyfarfod a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Anwen Jones,** "Roedd nifer fawr wedi ymuno, gyda Mabon ap Gwynfor, a Llyr Huws Griffith, Swyddogion a Chadeirydd Gyngor Gwynedd, ynghyd a Cyngorwyr Cymunedau a Sirol o Ynys Mon a Sir Benfro/ Ceredigion. Trafodwyd argymhellion i geisio rheoli y niferoedd o ail gartrefi ac roedd Y Cynulliad wedi comisiynu Simon Brookes i wneud argymhellion er mwyn i'r cynulliad eu hystyried. Nid oedd Dyfrig Siencyn yn cytuno a un cymal, sef dileu rhyddhad treth i fusnesau tai gwyliau, er ei fod yn cydnabod fod yna 'loophole' i berchenogion ail gartrefi osgoi y Dreth Cyngor; ond trechwyd ef gan Simon Glyn yn deud gallai ymyryd a hynny danseilio dogfen Simon Brookes a gwano y'r achos. Gofynnwyd i bawb roi ei henwau ar y 'chat' ar y zoom i ddatgan ein bod yn cefnogi yr adroddiad. Bydd cyfarfod arall eto mis nesa. Gofynnwyd i Gyngor Tref Nefyn anfon adroddiad i'r Cyngorau Cymuned oedd yn bresennol". **Derbyn.**

Materion yn y gymuned.

10. **Arwyddion dim ysbwriel drwy'r gymuned** - y Clerc wedi anfon llythyr at Gyngor Gwynedd i dynnu sylw fod llawer o sbwriel yn cael ei adael/daflu ar hyd ochrau ffyrdd a llecynau parcio o amgylch y gymuned.

Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosib gosod mwy o arwyddion o amgylch yr ardal mewn mannau penodol, neu a fyddai'n iawn i'r Cyngor Cymuned osod rhai ein hunain.

Argymhellwyd bod angen addysgu'r cyhoedd, a chreu mwy o ymwybyddiaeth rhywsut.

Hefyd gofynnwyd beth oedd y camau mae Cyngor Gwynedd yn ei gymryd i geisio datrys y broblem ond nid oedd ateb wedi cael ei dderbyn eto. Y Clerc am holi eto.

11. **Llanystumdwy**

12. **Rhoslan/Ynys**

13. **Chwilog**

a) **Llwybr sy'n cysylltu'r Lon Goed â fferm Chwilog Fawr-** y Cynghorydd Aled Evans wedi cysylltu hefo Mr Dewi Owen, Cyngor Gwynedd i holi os oes modd trwsio'r bont, oherwydd ei bod yn llwybr poblogaidd. Derbyniwyd ateb gan yr Adran Llwybrau yn cadarnhau **"Mi wnawn geisio archwilio'r bont yma cyn gynted a phosib, a cawn weld beth sydd ei angen i'w hadfer"**. **Derbyn.**

b) **Parcio yn Chwilog** - pryder oherwydd y cynnydd mewn tai yn y pentref, ac y bydd yn anodd parcio yno pan fydd pethau yn cael ei cynnal yn y capeli a'r neuadd. Y Clerc wedi anfon llythyr at Gyngor Gwynedd i holi os yw'n bosibl datrys y broblem, ond heb gael ateb eto. **Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â nhw eto, gan son am y posibilrwydd o allu defnyddio'r tir tu nol i'r Madryn os oes lle, neu yn y cae ger Ael y Bryn.**

c) **Parcio yn Glan y Wern** - wedi derbyn sawl cwyn yn dweud fod dau gar yn parcio drwy'r dydd a nos ar y llinellau dwbwl. **Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Adran Priffyrdd yn dweud, "Rwyf wedi anfon yr e-bost yma ymlaen i Rheolwr Llinell y Swyddogion Gorfodaeth Sifil. Bydd y lleoliad yn cael ei fonitro pan bydd swyddog yn yr ardal. Diolch Tim Parcio". Derbyn.**

ch) **3 Lon y Plas** - cais yn gofyn i'r Cyngor gysylltu â'r bwrdd trydan (Scottish Power') yn gofyn wrthynt dacluso'r lle sydd ganddynt drws nesaf i 3 Lon y Plas gan ei fod ar lon y fynwent ac wedi tyfu'r wyllt. **Y Clerc wedi ffonio'r rhif oedd ar yr arwydd ar y safle, ac mae'r gwaith wedi cael ei wneud.**

14. **Pencaenewydd/Sardis**

Safle pasio, 'lay by'- y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Heb dderbyn ateb eto.**

15. **Llangybi**

Cae chwarae - yr Is-gadeirydd wedi son fod y matiau du sydd ar y llawr yn colli lliw ar ddillad/sgidiau y plant ac o bosibl angen ei newid. Hefyd, fod y fynedfa i un o'r offer ar gyfer yr anabl ddim yn agor. **Gofynwyd i'r Clerc holi cwmni G.L.Jones i weld beth oedd angen ei wneud, ac i roi arwydd yn dweud fod angen cau y cae chwarae oherwydd cyflwr y matiau, tan yr oedd yn bosib ei glanhau.**

16. **Enwau lleol** -

Penderfynwyd ar y sillafiad isod ar gyfer yr arwyddion.

1. Pont Rhyd y Croesau
2. Pont Rhyd y Benllig
3. Pont Rhyd yr Eirin
4. Pont Hendre Garcin

Hefyd penderfynwyd gwneud yr arwyddion pontydd isod hefyd:-

1. Pont Tanrallt - sef y bont ar y ffordd am Pentyrch
2. Pont Maenllwyd
3. Pont Ynys Creua
4. Pont Melin Pencoed
5. Pont Brychyni
6. Pont Bryn/ Pont Ffynnon Gadfa
7. Pont Bryn Beddau

Angen i'r Clerc drefnu i archebu'r arwyddion gan Llechi'r Ddraig ar ôl y cyfarfod.

17. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2021 ymlaen.**

Maenywern Llanystumdwy - y Clerc wedi gofyn wrth Mr Clifford Hughes a Mr Rhys Jones am bris i wneud y gwaith yn Maenywern, Llanystumdwy. **Penderfynwyd derbyn pris Mr Clifford Hughes.**

Materion Ariannol

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Fe wnaeth y Clerc anfon e-bost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.06.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Y Clerc wedi trefnu i dangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi ar 05.06.2021 cyn cael ei talu). Derbyn y wybodaeth.

19. **Archwilio mewnol** – y Clerc wedi gorffen casglu'r wybodaeth at ei gilydd, ac yn disgwyl i'r Adran Archwilio gysylltu â hi.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 03.06.2021:

Cyflog mis Mai 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2021 35 awr y mis x £11.05 = £386.75	386.75 - Llai treth £77.20 = £309.55	<u>309.55</u>	<u>309.55</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mai 2021	386.00 x 20% = £77.20	<u>77.20</u>	<u>77.20</u>
Costau'r Clerc Mai 2021	£16.66	<u>16.66</u>	<u>16.66</u>

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 01.07.2021.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.